

TRANSCRIPT FOR VIDEO (WELSH LANGUAGE VERSION)

<https://www.bbc.co.uk/teach/young-reporter/lesson-1-what-is-news/zpv8bqt>

Croeso i ganolfan newyddion y BBC yn Llundain – Huw Edwards ydw i – sef un o gyflwynwyr newyddion y BBC.

Mae gweithio ym myd newyddion yn gyffrous iawn. Mae'n her hefyd. Bob dydd – mae'n rhaid i ni gael popeth yn barod mewn pryd – ac yn gwbl gywir bob tro.

Ond eich tro chi yw hi nawr – i wneud yr un peth – a pharatoi adroddiadau newyddion eich hunain.

Felly, dyma ni yn un o stiwdios newyddion y BBC, ble byddwn ni'n paratoi newyddion teledu.

A thra byddwn ni'n darlledu'r newyddion, mae na dim o bobl mewn ystafell arall – sef y galeri – lle maen nhw i gyd yn cydweithio i sicrhau bod y rhaglen yn rhedeg yn llyfn.

Ond mae llawer o waith yn cael ei wneud allan o'r golwg – cyn i ni gyrraedd y fan yma.

A dyma lle bydd yn rhaid i chi ddechrau.

Felly'r cwestiwn cyntaf yw – beth yw newyddion?

Wel, efallai bod hyn yn amlwg, ond mae newyddion yn rhywbeth sy'n newydd neu'n gyfredol. Rhaid i newyddion olygu rhywbeth i bobl. Rhywbeth mae pobl eisiau gwybod – neu rywbeth sydd angen gwybod.

Efallai bod pobl eisiau clywed y newyddion diweddaraf am y byd adloniant neu chwaraeon. Ond fe allech ddadlau bod ANGEN iddyn nhw wybod am yr hyn sy'n digwydd ym maes iechyd, addysg neu am drychinebau a gwrthdaro.

Ar Newyddion y BBC mae cyfuniad o wahanol fathau o straeon yn dibynnu ar y gynulleidfa benodol.

Gan gofio'r pethau hyn, mae na straeon newyddion o'ch cwrpas chi ym mhob man.

Gallai bron popeth yn eich bywyd o ddydd i ddydd, sydd o ddiddordeb i chi neu i'ch ffrindiau, fod yn stori newyddion.

Mae newyddiadurwr da yn effro i stori ymhobman mae'n mynd.

Dylech fod yn chwilfrydig, yn awyddus i ofyn cwestiynau, a phwy a wŷr gallech ddod o hyd i rywbeth newydd a phwysig.

Fe allai eich adroddiadau fod am bethau sy'n mynd ymlaen yn eich ysgol – neu o gwmpas y cartref. Newyddion lleol yw hynny.

Neu am bethau sy'n digwydd yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig – newyddion cenedlaethol a chyffredinol yw hynny.

Neu hyd yn oed yn fyd eang – a newyddion rhyngwladol yw hynny.

Cyn iddyn nhw baratoi i gyflwyno adroddiad ar unrhywbeth – mae timoedd Newyddion y BBC yn cynnal cyfarfodydd cyson – i benderfynu beth sy'n newyddion ar y diwrnod arbennig hwnnw – a sut i'w adrodd yn gywir.

A gallwch chithau wneud yr un peth.

Felly, fe allwch di baratoi adroddiadau newyddion mewn gwahanol ffyrdd, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n yn gwybod sut i'w roi ar wefan eich ysgol. Mae hynny yn bwysig.

Yna, fe allwn ni ei gysylltu o wefan y Bwletin Ysgol – School Report – fel bod pobl ar draws Prydain – ac hyd yn oed ar draws y byd – yn gallu gweld eich gwaith chi.

Y peth allweddol yw – mwynhewch y dasg – a phob lwc.